



Sut rydym yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i fesur cynnydd cenedl?

Ffurflen ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Elinor Crouch-Puzey

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cymorth i Ferched Cymru

e-bost/rhif ffôn: EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk

Eich cyfeiriad:
Cymorth i Ferched Cymru,
Tŷ Pendragon,
Plas Caxton,
Pentwyn,
Caerdydd,
CF23 8XE

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **19 Ebrill 2019** i:

Cerrig Milltir Cenedlaethol i Gymru
Swyddfa'r Cabinet
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu eu cwblhau'n electronig a'u hafnon i:

e-bost: cabinetoffice@gov.wales



A. Newidiadau i'r meini prawf ar gyfer dewis dangosyddion cenedlaethol ar gyfer datblygu cerrig milltir cenedlaethol

1. Ydych chi'n cynnig unrhyw newidiadau i'r meini prawf?

Ydwyf/Ydyn	x
Nac ydwyf/Nac ydyn	

2. Os ydych, ydy'r newid arfaethedig yn faen prawf ychwanegol neu'n welliant i un o'r meini prawf presennol? (Ticiwch un blwch os gwelwch yn dda)

Ychwanegol	
Gwelliant	x

3. Os ydyw'n welliant, pa faen prawf presennol gaiff ei wella?

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfiawnhau ei defnydd o nifer fach o ddangosyddion yn ei meini prawf o fewn y ddogfen ymgynghori er mwyn 'canolbwyntio eu hegri ar wneud y newidiadau allweddol sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddwn yn cyflawni'r nodau hyn'. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu na fydd yn bosibl cyrraedd y nodau hyn heb enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol fel rhwystr i sicrhau cydraddoldeb a gwella lles yng Nghymru.

Nid ydym yn teimlo y gall y llywodraeth fesur yn gywir y cynnydd tuag at y saith nod llesiant os na fesurir yn benodol yr ymdrechion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod dangosyddion penodol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu cynllunio (ymgynghorydd arnynt yn ddiweddar ac fe ymatebodd Cymorth i Ferched Cymru iddynt), ni chaiff ei nodi o fewn yr ymgynghoriad hwn ar fesur cynnydd cenedl ac ni wnaed unrhyw gysylltiad â nhw o fewn y 46 dangosydd ehangach. Dylai'r set fach felly enwi'n benodol drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel maes i fynd i'r afael ag ef, yn arbennig o gofio bod yna ddyletswydd statudol yng Nghymru i atal trais yn erbyn menywod a merched ac o ystyriedei effaith ar draws amrywiol feysydd polisi (fel yr ymchwiliwyd drwy gydol yr ymateb hwn).

O dan bwynt 2 'gallu cael eu dylanwadu'n sylweddol gan ein llywodraeth ddatganoledig', cytunwn ei fod yn bwysig mesur lle gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf. Mae hwn eto yn gyfle i fesur trais yn erbyn menywod, cam-drin

domestig a thrais rhywiol gan fod nifer o'r meysydd a effeithir ganddo, tai, addysg, iechyd a thrafnidiaeth, wedi'u datganoli.

Gweithredu o dan bwynt 3 'bydd cyflawni'r garreg filltir hon yn datgloi cynnydd mewn amrywiaeth o feysydd'; byddem yn dadlau eto y gallai enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol a gweithio ar draws y gwahanol feysydd polisi a effeithir ganddo helpu yma. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi'n benodol y cyswllt rhwng addysg ac iechyd a chymunedau gwydn iach. Effeithir ar yr holl feysydd hyn gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r dystiolaeth yn glir bod iechyd corfforol a meddyliol yn cael eu heffeithio'n negyddol (yn yr hirdymor a'r tymor byr) drwy brofi trais yn seiliedig ar rywedd¹. Yn ei dro, gall cyrhaeddiad addysgol² gael ei effeithio gan blant sy'n byw mewn cartrefi lle mae yna gam-drin.

Mae pwynt 4, sy'n ymwneud â chael effaith ar genedlaethau ac atal canlyniadau gwael sy'n sy'n cael effaith gynyddol ar genedlaethau'r dyfodol, yn gyfle amlwg i nodi a gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n wybyddus bod profi neu bod yn dyst i gamdriniaeth fel plentyn yn brofiad andwyol adeg plentyndod, a gall drwgweithredwr weithredu i niweido'n fwriadol berthynas rhwng y fam a'r plentyn fel rhan o'i reolaeth. Er gall plant sy'n dioddef profiadau andwyol adeg plentyndod yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiad gwrth-gymdeithasol a niweidol i iechyd, mae goroeswyr profiadau andwyol adeg plentyndod wedi tynnu sylw hefyd at y ffaith, gyda'r gefnogaeth gywir, 'nad yw plentyndod andwyol yn gorfod arwain at ganlyniadau gwael yn hwyrach mewn bywyd'². Felly, er bod dangosyddion 3 a 5 yn nodi 'ymddygiad ffordd o fyw iach', nid oes unrhyw arwydd yn y ddogfen y bydd hyn yn ystyried trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel ffactor ysgogol. Efallai ein bod yn gwneud anghymwynas â chenedlaethau'r dyfodol o beidio cynnwys mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel rhan ganolog o gyflawni'r nodau lleisiant.

4. Nodwch eich maen prawf newydd neu well os gwelwch yn dda.

Gweler uchod.

5. Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda pam y bydd y maen prawf newydd neu well hwn yn cyd-fynd â'r meini prawf eraill ac yn rhoi'r cymorth gorau i ddatblygu set fach

¹ <https://www.womenshealth.gov/relationships-and-safety/effects-violence-against-women>



o gerrig milltir cenedlaethol a fydd o gymorth i Weinidogion wrth asesu cynnydd ar gyfer Cymru gyfan tuag at y saith nod llesiant.

Yn hytrach na maen prawf newydd, mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell plethu pwysigrwydd ac enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol fel rhan ganolog o'r maen prawf. Teimlwn hefyd y dylai edrych yn benodol ar fesur effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws nifer o'r dangosyddion a allai gael eu heffeithio, megis iechyd meddwl, beichiogrwydd iach, tlodi, digartrefedd ac ati.

6. Ydych chi'n argymhell dileu unrhyw un o'r meini prawf presennol?

Ydwyf/Ydyn	
Nac ydwyf/Nac ydyn	x

Os felly, pa faen prawf ydych chi am ei weld yn cael ei ddileu a pham?

N/A

B. Newidiadau i'r set fach o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer datblygu cerrig milltir cenedlaethol

7. Ydych chi'n cynnig unrhyw newidiadau i'r set fach o ddangosyddion cenedlaethol a awgrymwn ar gyfer gosod cerrig milltir cenedlaethol?

Ydwyf/Ydyn	x
Nac ydwyf/Nac ydyn	

8. Ydych chi'n argymhell dileu neu ychwanegu dangosyddion cenedlaethol o'r set fach a awgrymwn ar gyfer gosod cerrig milltir cenedlaethol? (Ticiwch un blwch os gwelwch yn dda)

Dileu	
-------	--



Ychwanegu | x

9. Os ydych yn cynnig dangosydd cenedlaethol ychwanegol ar gyfer gosod carreg filltir, pa ddangosydd cenedlaethol ydych chi'n awgrymu ei ychwanegu?

Mae Llywodraeth Cymru am weld y dangosyddion cenedlaethol dethol yn asesu cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant – pryderwn na fydd y dangosyddion a ddewiswyd o gymorth i gyflawni'r rhain.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu nad yw'r dangosyddion a ddewiswyd nac yn wir y 46 dangosydd ehangach yn gynrychiolaeth gywir wrth ystyried trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu sefyllfa menywod a phlant. Mae'r ffenomena hyn yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd ac felly ar draws pob un o feysydd polisi'r llywodraeth. Mae'n amhosibl cyflawni'r saith nod llesiant heb enwi'n benodol a disgwyl mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn y cerrig milltir hyn. Yn ogystal â hyn, ac yn ddigon anesboniadwy, nid oes unrhyw gyfeiriad o fewn y dangosyddion arfaethedig at ddangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a ddatblygwyd ar wahân, dylid cysylltu'r rhain yn benodol.

Nid yw'r 15 dangosydd a ddewiswyd yn ystyried yn uniongyrchol drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol na materion ehangach yn ymwneud ag anghydraddoldeb. Er bod dangosydd 17 (gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau) wedi'i gynnwys, ni fydd hyn yn mesur materion eraill sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb rhywiol, megis trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ni fydd ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yn unig yn cyflawni'r saith nod llesiant ychwaith. Nid yw'n bosibl gwahanu'r gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau oddi wrth anghydraddoldeb rhywiol ehangach; mae cyflogau'n parhau i fod yn seiliedig ar rywedd a gall dynion sy'n rheoli menywod fanteisio ar hyn er eu lles eu hunain. Felly, ni allwn wahanu profiad menywod sy'n cael eu gorfodi i ddibyniaeth economaidd gan bartneriaid rheolaethol oddi wrth y broblem ehangach o statws economaidd is menywod². Mae'n rhaid i unrhyw waith i gau'r bwlch yn y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau ystyried y defnydd o gam-drin a rheolaeth economaidd fel ffactor sy'n cynnal anghydraddoldeb ariannol. **Rydym yn argymhell yn gryf felly bod pob dangosydd sy'n cael ei gasglu yn dadgyfuno'r data yn ôl rhyw/rhywedd.**

Gall dangosydd 29 (sgôr lles meddyliol cymedrig) ddod o hyd i fenywod sydd wedi'u heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; mae

² A Review of Research and Policy on Financial Abuse within Intimate Partner Relationships, Sharp-Jeffs, tudalen 4 <https://www.londonmet.ac.uk/media/london-metropolitan-university/london-met-documents/faculties/faculty-of-social-sciences-and-humanities/research/child-and-woman-abuse-studies-unit/Review-of-Research-and-Policy-on-Financial-Abuse.pdf>



ymchwil yn dangos bod 69% o fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol³, ond nid yw wedi'i enwi'n benodoll felly nid oes sicrwydd y caiff ei fesur yn y ffordd hon. Mae'n amlwg, er mwyn cyflawni'r saith nod, bod mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hanfodol i wella iechyd meddyliol menywod ar draws Cymru.

Felly, heblaw am ychwanegau geiriau er mwyn sicrhau bod data wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhyw, mae Cymorth i Ferched Cymru yn cynnig cynnwys dangosydd newydd (o fewn y 15 dangosydd a ddewiswyd) sy'n enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol ac sy'n sicrhau bod unrhyw waith tuag at y nodau llesiant yn bwydo yn ôl i ddangosyddion cenedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r geiriad a gynigir yn dod o'r dangosyddion ar gyfer Nod rhif pump Datblygu Strategol y Cenhedloedd Unedig: 'Cyflawni cydraddoldeb rhywiol a grymuso pob menyw a merch'.⁴

Mae tri o'r dangosyddion mwyaf perthnasol i hyn yn cynnwys:

5.2.1 Y gyfran o fenywod a merched 15 oed a hŷn sydd â phartner ac sy'n dioddef trais corfforol, rhywiol neu seicolegol gan bartner/cyn-bartner agos yn ystod y 12 mis blaenorol, yn ôl y math o drais ac yn ôl oed

5.2.2 Y gyfran o fenywod a merched 15 oed a hŷn sy'n dioddef trais rhywiol wrth law pobl heblaw am bartner agos yn ystod y 12 mis blaenorol, yn ôl oed a lleoliad y digwyddiad

5.3.2 Y gyfran o fenywod a merched 15-49 oed sydd wedi dioddef enwaedu benywod, yn ôl oed

Gellir diweddarau a chyfuno'r rhain yn y dangosydd newydd arfaethedig canlynol:

Y gyfran o unigolion 15 oed a hŷn sydd wedi dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol yn ystod y 12 mis blaenorol, yn ôl rhyw, yn ôl y math o drais/cam-drin, yn ôl oed a lleoliad y digwyddiad.

Os ydych wedi ateb y cwestiwn uchod, ystyriwch yn awr, os gwelwch yn dda, pa ddangosyddion cenedlaethol y gellir eu dileu o fod â cherrig milltir er mwyn cadw set fach neu leihau'r set ymhellach.

³ <https://avaproject.org.uk/ava-services-2/multiple-disadvantage/promoting-recovery-mental-health-primh/>

⁴ <https://sustainabledevelopment.un.org/sdg5> [Gwelwyd Ebrill 2019].



Nid ydym yn awgrymu y dylid dileu unrhyw un o'r dangosyddion gan y gallant gynorthwyo hefyd i fesur cynnydd yn yr ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, o wybod ei effaith ar feichiogrwydd iach, ymddygiad ffyrdd o fyw, cyrhaeddiad ysgol, incwm ac ati. Fodd bynnag, gellir dehongli llawer o'r pwyntiau mewn amryw o ffyrdd, er enghraifft, gellir mesur disgwyliad oes iach adeg genedigaeth yn unig ar sail p'un ai yw baban yn cael ei eni i dlodi neu i fam â defnydd problematig o sylweddau, heb ystyried o gwbl a yw trais a cham-drin wedi chware rhan. Felly, fel y nodwyd eisoes, dylid cynnwys yma ddangosydd i fesur trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol, a hwnnw wedi'i gysylltu â dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ond dylai hefyd gydnabod y gall y dangosyddion eraill gael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ynghyd â sicrhau y gellir dadgyfuno'r holl ddata a gesglir yn ôl rhyw.

10. Os ydych yn argymhell dileu dangosyddion cenedlaethol yr ydym yn bwriadu gosod cerrig milltir yn eu herbyn ar hyn o bryd, pa rai yr ydych yn awgrymu eu dileu?

N/A

11. Rhowch esboniad am eich newidiadau arfaethedig os gwelwch yn dda a'r cyfraniad a wnânt i set fach a chytbwys o gerrig milltir.

N/A

Mae dangosyddion 10, 18 a 21 wedi'u dylanwadu'n fawr gan benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ac amodau economaidd ehangach. Mae angen i'r cerrig milltir cenedlaethol allu cael eu dylanwadu'n sylweddol gan ein llywodraeth ddatganoledig ac felly ni fydd yn briodol ar gyfer y dangosyddion hyn i seilio ein carreg filltir genedlaethol ar darget "pwynt" absoliwt. Yn hytrach, awgrymwn y byddai'n fwy priodol defnyddio rhai o'r dulliau eraill a ddisgrifir ar dudalen 13.

12. Ydych chi'n cytuno gyda'r sail resymegol i hyn, neu a oes gennych unrhyw farn arall ynghylch sut y dylem ymdrin â meysydd nad ydynt yn gyfan gwbl yn rhai lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli?



Mae Cymorth i Ferched Cymru yn teimlo bod hwn yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddangos cynnydd o'i chymharu â gwledydd eraill, fel y noda yn y ddogfen ei bod yn gobeithio'i wneud. Gellir cyflawni hyn trwy gysoni â Nod rhif pump Datblygu Strategol y Cenhedloedd Unedig, fel yr amlinellwyd uchod.

Er ein bod yn cytuno y caiff y dangosyddion hyn eu heffeithio'n arbennig gan benderfyniadau ar lefel y DU, gallant hefyd gael eu heffeithio gan ffactoru eraill, sef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; 'poverty is an exhausting and grinding force that prevents women moving on from crisis';⁵ gellir gwella tlodi, incwm y cartref a pha un ai bod rhywun mewn gwaith trwy fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae angen mwy o waith i hyrwyddo annibyniaeth economaidd i fenywod. Fel y nodwyd eisoes, mae cam-drin economaidd yn dacteg gyffredin o fewn camdriniaeth partneriaid agos, a gall hyn gynnwys atal rhywun rhag cadw neu ddod o hyd i waith, a fydd wrth gwrs yn effeithio ar ddata sy'n ymwneud â chyflogaeth. Yn ogystal â hyn, gwyddom fod caledi ariannol yn gyffredin i fenywod yn dilyn gwahanu⁶ a bod llawer o fenywod sy'n cael lloches yn methu â gweithio, ac yn aml yn gorfod gadael gwaith er mwyn symud i rywle diogel ac yn gorfod talu'r rhent mewn lloches – yn aml mae menywod yn gorfod dibynnu ar fudd-dâl tai er mwyn talu'r gost.

Mae menywod sy'n wynebu anafanteision lluosog yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac yn eu tro yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais a chamdriniaeth na menywod nad ydynt mewn tlodi⁷. Wrth gwrs, mae rhai menywod yn fwy tebygol o fod mewn tlodi, gan gynnwys menywod ar y cyrion, menywod anabl a/neu fenywod LGBT.

Gall tlodi fod yn ffactor allweddol wrth atal menywod rhag gadael partneriaid sy'n cam-drin ac yn ei dro gall effaith cam-drin ar hunan-werth ac iechyd meddwl ei gwneud yn anos i fenywod gael gwaith.⁸

Dylai Llywodraeth Cymru felly ystyried achosion a ffactorau ysgogol ehangach tlodi a diweithdra, yn arbennig i fenywod a'r rheini a effeithiwyd gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac ystyried pa waith y gellir ei wneud ar lefel ddatganoledig i ddileu rheolaeth a chamdriniaeth economaidd. Felly, dylid casglu gwybodaeth yn ôl rhywedd a'i dadgyfuno fel yr amlinellir uchod.

⁵ Breaking Down the Barriers, Op Cit, tudalen 33

⁶ The Economics of Abuse, S Davidge and L Magnusson, tudalen 4 <https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Economics-of-Abuse-Report-2019.pdf>

⁷ Agenda; Joining the Dots <https://weareagenda.org/wp-content/uploads/2015/11/Joining-The-Dots-Report-Final-b-Exec-Summary.pdf>

⁸ Breaking Down the Barriers, Op Cit, tudalen 34



C. Newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol

13. Ydych chi'n cynnig unrhyw newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?

Ydwyf/Ydyn	x
Nac YdwyfNac ydyn	

14. Pa fath o newid ydych chi'n ei gynnig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?

(Ticiwch un blwch os gwelwch yn dda)

Dileu neu newid dangosydd presennol	
Newydd	x

15. Os ydych yn cynnig newid i ddangosydd(ion) sy'n bodoli eisoes neu'n cynnig dangosydd newydd, nodwch y fersiwn yr ydych chi'n ei gynnig os gwelwch yn dda.

Heblaw am ddiffyg eglurder ynghylch a fydd y 46 dangosydd cenedlaethol ehangach yn casglu ac yn dadgyfuno'r data yn ôl rhywedd, fel yr amlinellwyd uchod, nid ydynt ychwaith yn enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol, er bod llawer ohonynt yn cael eu heffeithio ganddo. Mewn gwirionedd byddai llawer yn gwella pe bai trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddileu, ond heb ei enwi fel maes allweddol i fynd i'r afael ag ef, pryderwn na fydd y saith nod yn cael eu cyflawni. Eto, argymhellwn gysoni â Nodau Datblygu Strategol y Cenhedloedd Unedig – Nod Pump.

Gallai rhai o'r 46 o ddangosyddion ehangach helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r cynnydd tuag at gydraddoldeb, ond rydym yn awyddus i ddeall sut y byddant yn cyd-fynd â'r Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae dangosyddion perthnasol presennol yn cynnwys:

Y ganran o enedigaethau sengl byw sy'n pwysu o dan 2500g:

- Gwyddom fod dioddef trais a cham-drin yn ystod beichiogrwydd yn medru arwain at enedigaeth gynamserol, pwysau geni isel a babanod bach o ran

cyfnod y beichiogrwydd⁹. Felly, gallai canran dda o fabanod iach o ran eu pwysau geni fod yn ddangosydd bod cam-drin domestig yn cael ei gydnabod yn gynt yn ystod beichiogrwydd.

Mesur datblygiad mewn plant ifanc:

- Mae effaith dioddef a bod yn dyst i gam-drin fel plentyn yn hysbys iawn a chaiff ei gydnabod fel math o gam-drin plant. Gwyddom hefyd y gall effeithio ar ddatblygiad plentyn.

Y ganran o bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt:

- Mae'n hanfodol bod pobl ar draws Cymru yn medru cael mynediad at wasanaethau sydd eu hangen arnynt. Er mwyn mynd i'r afael yn llawn ag anghydraddoldeb rhywiol, mae'n rhaid i hyn gynnwys mynediad at wasanaethau arbenigol trais yn ebyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan ac ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig a mynediad ar gyfer goroeswyr anabl, menywod â statws mewnffudo anniogel ac ati.

Y ganran o bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded o fewn yr ardal leol ac wrth deithio:

- Gwyddon fod y cartref yn un o'r manau mwyaf peryglus i fenyw fod. Yng Nghyfrifiad Gwreigladdiad diweddaraf Lloegr a Chymru 2018/19, o'r 113 o fenywod a laddwyd gan ddynion, lladdwyd 38.1% yn eu cartref eu hunain a 37.2% yn y cartref yr oeddent yn ei rannu gyda'r drwgweithredwr¹⁰. Ni ellir sicrhau bod pawb yn teimlo'n fwy diogel gartref heb fynd i'r afael â thrais angheuol dynion yn erbyn menywod.
- Mae hefyd yn hanfodol mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol menywod wrth iddynt ddefnyddio manau a thrafnidiaeth gyhoeddus, mater a welsom yn codi i amlygrwydd newydd o ganlyniad i'r mudiad Me Too a Time's Up.

Y ganran o bobl sy'n unig:

- Gall ynysu menywod yn fwriadol gan ddynion sy'n cam-drin eu hatal rhag cynnal perthnasoedd gyda ffrindiau, eu teulu a'u cymunedau. Mae goroeswyr weithiau'n nodi iddynt golli cyswllt â chymunedau oherwydd iddynt gael eu beio am beidio ag ymadael â phartner sy'n cam-drin. Gall menywod sy'n dianc rhag camdrinaeth hefyd fod yn hynod ynysig yn yr ardal newydd y maent wedi symud iddi, Mae'n rhaid ystyried trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol felly fel ffactor ysgogol i unigrwydd ac mae'n rhaid gweithio gyda chymunedau i ddeall sut gall cam-

⁹ <https://www.rcog.org.uk/en/news/bjog-release-domestic-violence-during-pregnancy-doubles-risk-of-preterm-birth-and-low-birth-weight/>

¹⁰ <https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/12/The-Femicide-Census-Report-published-2017.pdf> (pg 19)

drin arwain at unigedd. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn treialu'r model Newid sy'n Para¹¹, sy'n ceisio cefnogi cymunedau i ddeall arwyddion cam-drin ac i weithredu'n gynt. Teimlwn ei fod yn bwysig defnyddio ein harbenigedd ac arbenigedd sector arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn ystyried sut y gellir mynd i'r afael ag unigrwydd yn y cyd-destun hwn.

Y nifer o aelwydydd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref fesul 10,000 aelwyd:

- Gwyddom fod bygythiad digratrefedd yn gweithredu fel rhwystr i fenywod sy'n ceisio cymorth a bod llety ansicr a digartrefedd yn parhau am gyfnodau maith ar ôl ceisio cymorth yn y lle cyntaf. Er enghraifft, nododd sefydliad Solace fod 87% o fenywod a ymadawodd â llety argyfwng wedi mynd i lety dros dro ychwanegol¹². Er mwyn lleihau'r nifer o deuluoedd sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad digartrefedd yng Nghymru mae'n rhaid mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel achos digartrefedd, yn arbennig i fenywod a phlant. Mae'n rhaid mynd i'r afael ar frys â'r diffyg dewisiadau symud ymlaen priodol o lochesi mewn ymdrech i drechu'r anghydraddoldeb a achosir gan ddigartrefedd.

Fodd bynnag, nid yw'r dangosyddion hyn yn enwi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn benodol nac ychwaith ryw yr unigolion, ac felly gellir eu dadansoddi mewn ffyrdd gwahanol, heb roi ystyriaeth i gydraddoldeb rhywiol na thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at ymatebion tymor byr a pheidio â mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol.

Felly rydym yn ailadrodd y pwynt uchod ac yn cynnig dangosydd penodol sy'n cysylltu â Nod rhif pump Datblygu Strategol y Cenhedloedd Unedig ac sy'n ceisio mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'i ddileu yn y pendraw, ac sydd hefyd yn cysylltu nôl â'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai hyn osod disgwylaid clir i'r cerrig milltir sy'n gweithio tuag at y dangosyddion hyn hefyd:

Y gyfran o unigolion 15 oed a hŷn sydd wedi dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol yn ystod y 12 mis blaenorol, yn ôl rhyw, yn ôl y math o drais/cam-drin, yn ôl oed a lleoliad y digwyddiad.

¹¹ <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-approach-change-that-lasts/ask-me/>

¹² https://www.mappingthemaze.org.uk/wp/wp-content/uploads/2017/08/Solace-Womens-Aid-housing-report_The-price-of-safety_Mar16.pdf



16. Os ydych wedi cynnig dangosydd newydd, ystyriwch yn awr os gwelwch yn dda pa ddangosyddion cenedlaethol y gellir eu dileu, er mwyn cadw set fach neu leihau'r set ymhellach.

Nid ydym yn argymhell dileu unrhyw ddangosyddion.

17. Os ydych yn argymhell dileu dangosydd cenedlaethol presennol, nodwch y dangosydd hwnnw os gwelwch yn dda.

N/A

18. Dywedwch wrthym os gwelwch yn dda paham y bydd eich newid arfaethedig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol yn ein cynorthwyo i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywiol. Mae'n amhosibl sicrhau Cymru decach, fwy llewyrchus neu fwy cyfartal pan fo 1 ym mhob 4 menyw yn cael eu cam-drin ac 1 ym mhob 5 yn dioddef trais rhywiol¹³. Yn unigol mae'r profiadau hyn yn drawmatig, yn beryglus ac weithiau'n peryglu bywydau, ond mae effaith ehangach hirdymor trais a cham-drin o'r fath yn ymestyn ar draws cymunedau a'r gymdeithas ehangach. Caiff effaith ar y nifer o fenywod a phlant sydd mewn perygl o fod yn ddiartref, caiff effaith ar wasanaethau iechyd, caiff effaith ar gyrhaeddiad addysgol plant, caiff effaith ar allu menywod i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus heb ofn neu brofiad gwirioneddol o aflonyddu rhywiol neu drais, gall effeithio ar dlodi, dyled a gallu menywod i weithio a chyrraedd safle economaidd cyfartal â dynion. Heb osod y nod o ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ganolog i'r gwaith o sicrhau gwelliant i les pobl ar draws Cymru, bydd yn amhosibl cyflawni'r saith nod llesiant.

Mae'n debyg y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb aros yn anhysbys, ticiwch yma os gwelwch yn dda.



¹³ <https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/about/data-on-violence-against-women-and-girls/>
Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962



Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales
Deddfwr gywybwrth a chathwpaeth. Cofrethwr ynghyd â chymorth, hysbysu a llawer o wybll mawrdd yng Nghymru

0808 80 10 800



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First